# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

### DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

### WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

### A GYFLWYNWYD / TABLED ON

### 28/02/01

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2001-0008 A National Gallery for Wales

28 Feb 2001 Raised by Jonathan Morgan LLB MSc FRSA

No Subscribers

*A National Gallery for Wales*

*This Assembly:*

• *expresses its concern that 45,000 works of art are in storage in the National Museum, the Arts Council of Wales and the National Library and are therefore unavailable for public viewing;*

• *Calls on the Culture Minister to commit herself to establishing a National Gallery for Wales and/or a series of regional galleries across Wales to house a wider selection of Welsh and international art.*

*Oriel Genedlaethol i Gymru*

*Mae'r Cynulliad hwn:*

*• yn mynegi ei bryder bod 45,000 o ddarnau o gelfyddyd yn cael eu storio gan yr Amgueddfa Genedlaethol, gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chan y Llyfrgell Genedlaethol ac nad ydynt, felly, ar gael i'w gweld gan y cyhoedd;*

*• yn galw ar y Gweinidog dros Ddiwylliant i ymrwymo'i hun i sefydlu Oriel Genedlaethol i Gymru a/neu gyfres o orielau rhanbarthol ledled Cymru i gadw detholiad ehangach o gelfyddyd Gymreig a rhyngwladol.*

# OPIN-2001-0007 PARCHU'R CYTUNDEB DATGANOLI/RESPECT FOR THE DEVOLUTION SETTLEMENT

16 Feb 2001 Raised by Glyn Davies, Peter Rogers

No Subscribers

*This Assembly regrets the decision by Members of Parliament to criticise the Assembly's decision to examine the effects of a ban on hunting with hounds in Wales; and*

*- reaffirms the Assembly's call to have the issue determined in Wales, and notes Parliament's refusal to make such provision;*
*- commends Members for recognising the importance of the issue in Wales;*
*- notes the decision to raise an Early Day Motion in order to influence the proceedings of the National Assembly for Wales;*
*- and requests that Members of Parliament focus attention on Parliamentary business in accordance with the devolution settlement.*

*Parchu'r Cytundeb Datganoli*

*Mae'r Cynulliad hwn yn anhapus gyda phenderfyniad Aelodau Seneddol i feirniadu penderfyniad y Cynulliad i gynnal astudiaeth o effeithiau gwahardd hela â chwn yng Nghymru; ac*

*• yn ailadrodd cais y Cynulliad i'r penderfyniad gael ei wneud yng Nghymru, ac yn nodi'r ffaith fod y Senedd wedi gwrthod gwneud darpariaeth o'r fath;*
*• yn cymeradwyo'r Aelodau am sylweddoli pwysigrwydd y mater hwn yng Nghymru;*
*• yn nodi'r penderfyniad i godi Cynnig Cynnar-yn-y-dydd er mwyn dylanwadau ar drafodion y Cynulliad;*
*• yn gofyn i'r Aelodau Seneddol ganolbwyntio eu sylw ar fusnes y Senedd yn unol â'r cytundeb datganoli.*

## Amendments

A01 19 Feb 2001 Raised by Ron Davies

4 Subscribers

Janet Davies
Cynog Dafis
Gareth Jones
Lorraine Barrett

*Delete all after ‘This Assembly’ and insert;*
*‘Notes the confused and contradictory attitude of Conservative AMs in the National Assembly who, while calling for respect for the "devolution settlement", simultaneously call for the issue of hunting with hounds to be determined in Wales, thus effectively calling for primary law-making powers over non-devolved Home Office functions’.*

*Dileu popeth ar ôl ‘Y Cynulliad hwn’ a rhoi yn ei le;*

*‘Nodi agwedd ddryslyd a chroes Aelodau Ceidwadol y Cynulliad Cenedlaethol sy’n galw am barch at y "setliad datganoli", ac ar yr un pryd yn gofyn i fater hela â chw^n gael ei benderfynu yng Nghymru, ac sydd felly, i bob pwrpas, yn galw am bwerau deddfwriaeth sylfaenol dros swyddogaeth sydd heb ei datganoli o’r Swyddfa Gartref.’*

## OPIN-2001-0005 Goblygiadau Gorsaf Bw^er Niwclear yr Wylfa o Safbwynt Diogelwch/Safety Implications of Wyfla Nuclear Power Station

07 Feb 2001 Raised by Mick Bates, John Griffiths LLB

4 Subscribers:

Janet Davies
Peter Black
Kirsty Williams
Ron Davies

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi’r Concordat diweddar rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cydnabod bod gan y Cynulliad ddiddordeb mewn materion o ddiogelwch niwclear oherwydd yr effaith y gallai damwain*

*niwclear ei chael ar yr amgylchedd.*

*Mae'r Cynulliad hefyd yn nodi bod gorsaf bw^er niwclear yr Wylfa ar gau ar hyn o bryd ar ôl dod o hyd i ddiffygion yng ngwaith weldio cynhwysydd pwysedd yr adweithydd.*

*Mae'r Cynulliad yn galw ar y Gweinidog Ynni i holi'r Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear ynghylch goblygiadau diogelwch ailagor yr Wylfa, a sicrhau bod gwybodaeth am holl agweddau diogelwch niwclear yng Nghymru ar gael i'r cyhoedd.*

*The National Assembly notes the recent Concordat between the Health and Safety Executive and the National Assembly for Wales recognising that the Assembly has an interest in issues of nuclear safety because of the impact a nuclear accident could have on the environment.*

*The Assembly also notes that Wylfa nuclear power station is currently closed following the discovery of defects in welds in the reactor pressure vessel.*

*The Assembly calls on the Energy Minister to question the Nuclear Installations Inspectorate about the safety implications of reopening Wyfla, and ensure that information relating to all aspects of nuclear safety in Wales is made public.*